| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 Hydref 2018** |
| **TEITL:** | **Rhaglen Waith Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams**<br>**Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno Rhaglen waith gychwynnol er gwybodaeth a thrafodaeth. |

## 1. Cefndir

1.1 Cafodd y Cynllun Hybu terfynol, a'r rhaglen waith gychwynnol, eu derbyn yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 4ydd o Hydref 2018.

1.2 Mae'r rhaglen waith yma yn gosod y camau cyntaf ar gyfer gweithredu ar flaenoriaethau'r Cynllun.

1.3 Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod yr Hydref gyda phartneriaid allweddol er mwyn rhannu'r bwriadau a chytuno ar flaenoriaethau gweithredu.

## 2 Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

2.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried cynnwys y rhaglen waith a chynnig unrhyw sylwadau arni.

2.2 Gofynnir iddynt hefyd ystyried a oes yna unrhyw feysydd neu brosiectau yr hoffent fwy o wybodaeth arnynt er mwyn ehangu eu dealltwriaeth o'r meysydd blaenoriaeth ac o sut mae gwahanol bartneriaid yn cyfrannu at y weledigaeth.